WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 999A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Dave Thomas, Derwyn Owen, Gareth Lucey a Sara Utley.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18. Nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen dwyn sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio atynt o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 9

Mae'r Bwrdd yn parhau i weithredu'n dda, ond mae angen gwella rhai agweddau ar lywodraethu ansawdd, rheoli risg a goruchwylio trefniadau TGCh 9

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer cynllunio strategol a chymorth effeithiol ar gyfer cyfarwyddiaethau, ond mae'n anodd olrhain cynnydd heb gerrig milltir IMTP manwl 11

Mae trefniadau rheolaeth ariannol a rheoli asedau yn gadarn, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n gymharol dda yn erbyn sawl targed perfformiad allweddol. Fodd bynnag, mae angen parhau i weithredu i fynd i'r afael â heriau sylweddol yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys ffactorau sy'n sbarduno'r defnydd cymharol uchel o staff locwm ac asiantaeth 12

Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn dangos gwaith cynllunio effeithiol, ond gellid gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd 14

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau 16

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 17

Atodiad 2 – ffi archwilio 18

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 19

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2018. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd fy nghanfyddiadau o dan y penawdau canlynol:

- Negeseuon allweddol
- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

4 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2018 a sut yr aer i'r afael â nhw yn ystod yr archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 14 Ionawr 2018. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio mae fy nhîm wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad, heb unrhyw faterion sylweddol yr oedd angen dwyn sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio atynt.

9 Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

10 Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb a gan fod ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac nad oedd unrhyw faterion eraill yr oedd angen eu nodi, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig 2018 yn y Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad:

- bod y Bwrdd yn parhau i weithredu'n dda, ond bod angen gwella agweddau pwysig ar lywodraethu ansawdd, rheoli risg a goruchwylio trefniadau TGCh;
- bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer cynllunio strategol a chymorth effeithiol ar gyfer cyfarwyddiaethau, ond ei bod yn anodd olrhain cynnydd heb gerrig milltir IMTP manwl; a
- bod trefniadau rheolaeth ariannol a rheoli asedau yn gadarn, a bod y Bwrdd Iechyd yn perfformio'n gymharol dda yn erbyn sawl targed perfformiad allweddol. Fodd bynnag, mae angen parhau i weithredu i fynd i'r afael â heriau sylweddol yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys ffactorau sy'n sbarduno'r defnydd cymharol uchel o staff locwm ac asiantaeth.

12 Mae adolygiadau o gynlluniau rhyddhau a gwasanaethau gofal sylfaenol wedi dod o hyd i rai enghreifftiau o arfer da, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ond ychydig iawn o ddefnydd a wnaed o'r data a ryddhawyd yn 2017.

14 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

15 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

16 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

17 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

### Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18. Nid oedd unrhyw faterion yr oedd angen dwyn sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio atynt o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol

#### Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon

18 Cafodd y datganiadau ariannol drafft eu llunio i'w harchwilio erbyn y terfyn amser cytûn sef 27 Ebrill 2018 ac unwaith eto roeddent o safon dda. Mae gan y Bwrdd Iechyd brosesau sicrhau ansawdd o ran y datganiadau ariannol a cheir lefel uchel o waith craffu gan y Pwyllgor Archwilio. Daethom i'r casgliad bod y polisïau a'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir.

19 Mae'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon a'r rhannau perthnasol o'r Adroddiad Blynyddol yn parhau i fod yn heriol a hoffem ganmol y tîm Cyllid a'r Bwrdd Iechyd ehangach am amseriad ac ansawdd eu gwaith. Mae'r cydberthnasau gwaith adeiladol ag Ysgrifennydd y Bwrdd, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r tîm cyllid cyfan wedi parhau unwaith eto eleni, a hoffem ddiolch iddynt am hynny.

20 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

21 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 31 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Nodwyd un camddatganiad o'r fath, lle roedd £597,000 o incwm a adenillwyd gan WHSSC/EASC o secondiadau i gyrff eraill y GIG wedi'i osod yn erbyn gwariant, yn hytrach na'i gofnodi ar wahân fel incwm amrywiol.<br>Ni effeithiodd y camddatganiad amherthnasol hwn ar sefyllfa ariannol gyffredinol WHSSC/EASC nac ar y Bwrdd Iechyd. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Nodwyd amryw o gywiriadau yn ystod yr archwiliad, fel yr amlinellir yn Atodiad 3 o'r adroddiad. Roedd yr unig gywiriadau perthnasol yn ymwneud â dosbarthiad darpariaethau a dyledwyr Cronfa Risg Cymru o ganlyniad i hawliadau cyfreithiol yn ymwneud ag esgeulustod clinigol ac anaf personol nad oeddent yn effeithio ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd. |
| Materion sylweddol eraill | Ni chafodd unrhyw faterion sylweddol eraill eu dwyn i sylw rheolwyr neu'r Pwyllgor Archwilio. |

22 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, gwneuthum hefyd gynnal adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2018, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

23 Mae fy adolygiad annibynnol ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd elusennol y Bwrdd Iechyd wedi'i gwblhau, ac ardystiais y cyfrifon hyn ar 8 Tachwedd 2018. Yn yr ardystiad hwn, rwy’n cadarnhau nad oes unrhyw faterion wedi dod i’m sylw sy’n rhoi achos i mi gredu:

- nad yw cyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cadw yn ôl y gofyn;
- nad yw’r cyfrifon yn cydymffurfio â’r cofnodion hynny;
- nad yw’r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol perthnasol;
- nad yw’r cyfrifon wedi’u paratoi yn unol â’r Datganiad o’r Arfer a Argymhellir ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd gan elusennau.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra’r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd

### Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli’r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra’r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18

24 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn gyd-fynd â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddo’r pwerau i dderbyn yr incwm a gwneud y gwariant sydd ganddo. Mae ein gwaith yn adolygu’r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm neu wariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn neu eu gwneud. Os nad yw’r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i fantoli’r gyllideb, bydd ei wariant yn uwch na’i bwerau i wario, felly rhaid i mi amodi fy marn ar reoleidd-dra.

25 Tanwariodd y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw gan £23,000 yn 2017-18. Ar ben y tanwariant bach pellach yn 2015-16 a 2016-17, roedd wedi tanwario yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw tair blynedd cronnus gan £63,000. Felly, cydymffurfiodd y Bwrdd Iechyd â’i ddyletswydd statudol i adennill ei gostau dros gyfnod treigl o dair blynedd.

### Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i fantoli’r gyllideb a gan fod ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac nad oedd unrhyw faterion eraill yr oedd angen tynnu sylw atynt, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd

26 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â’m barn lle rwyf eisiau tynnu sylw at faterion. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei dwy ddyletswydd ariannol: mantoli’r gyllideb (fel yr amlinellir uchod) a bod â chynllun tair blynedd cymeradwy ar waith; a gan nad oedd unrhyw faterion eraill yr oedd angen eu nodi, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

27 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd;
- adolygu ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio strategol;
- archwilio'r trefniadau sydd ar waith i reoli cyllid, gweithlu, asedau a phrosesau caffael y Bwrdd Iechyd;
- asesu'r defnydd penodol o waith adnoddau ar gynllunio rhyddhau, gwasanaethau gofal sylfaenol a gwaith partneriaeth rhanbarthol mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig;
- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol; ac
- asesu'r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

28 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u hamlinellu isod.

### Mae'r Bwrdd yn parhau i weithredu'n dda, ond mae angen gwella rhai agweddau ar lywodraethu ansawdd, rheoli risg a goruchwylio trefniadau TGCh

29 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, y ffordd mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cyflawni eu busnes ac i ba raddau mae strwythurau sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais hefyd ar y wybodaeth mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei derbyn i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro cyflawniad amcanion sefydliadol. Deuthum i'r casgliadau canlynol.

30 **Daethom i'r casgliad bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol, ond nad yw'r pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg mor effeithiol ag y gallai fod a bod bylchau yn y trefniadau i oruchwylio cynnydd ar ddatblygiadau TGCh.** Mae'r gwaith o weinyddu cyfarfodydd y Bwrdd yn dda, ac mae'n glir pan fo penderfyniadau wedi'u gwneud. Mae lefelau cadarnhaol o graffu a her yn amlwg yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Fodd bynnag, mae gan y pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg agenda fawr, ac nid yw papurau a gyflwynir i'r pwyllgor hwn yn ddigon cryno. Mae yna le i adolygu gwaith y pwyllgor hwn gyda'r nod o flaenoriaethu ei lwyth gwaith a mireinio'r ffordd mae gwybodaeth yn cael ei

chyflwyno i'r pwyllgor i helpu i gefnogi craffu effeithiol. Mae angen gwneud gwelliannau i'r gwaith o oruchwylio a chraffu ar gyflwyniad y Strategaeth Iechyd Digidol. Mae fy staff wedi nodi hefyd nad oes cynllun gweithredu seiberddiogelwch ar waith ar hyn o bryd.

31 **Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith sicrwydd a strategaeth rheoli risg ar waith, ond mae angen gwella'r gwaith nodi gweithredol, adolygu a lliniaru risg.** Er bod aelodau'r bwrdd yn hapus ar y cyfan â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer nodi a rheoli risg, nododd fy ngwaith fod yna gyfle i sicrhau adolygiad mwy rheolaidd o gofrestri risg y gyfarwyddiaeth gan nad oedd y sampl a adolygwyd gennym mor gyfredol ag y gallent fod.

32 **Mae angen gwella agweddau pwysig ar drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd.** Er ei bod yn ymddangos bod gan y Bwrdd Iechyd y strwythurau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i gefnogi llywodraethu ansawdd, yn ymarferol rydym yn poeni nad yw'r system yn effeithiol o ran tynnu sylw at faterion a phryderon neu ddangos ymatebion i welliannau. Mae angen gwella agweddau ar yr adroddiad ansawdd a gyflwynir i'r pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg gan i ni ddod i'r casgliad nad yw'r wybodaeth a gyflwynir yn galluogi darllenwyr i nodi meysydd sy'n peri pryder yn rhwydd ar hyn o bryd. Nid yw'r Grŵp Llywio Ansawdd sy'n gyfrifol am grynhoi gwahanol ffynonellau gwybodaeth o is-grwpiau ansawdd, ynghyd â chrynhoi'r adroddiad ansawdd, wedi bod yn cyfarfod fel sy'n ofynnol oherwydd y pwysau ar staff clinigol. Argymhellodd adolygiad Archwilio mewnol diweddar y dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau trefniadau i helpu staff i godi pryderon. Yn ogystal, nodwyd problemau gydag adrodd digwyddiadau difrifol mewn gwasanaethau Mamolaeth, ac mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn dangos dysgu sefydliadol ac yn ceisio sicrwydd nad yw materion a nodwyd mewn gwasanaethau mamolaeth yn fwy eang.

33 **Mae gan y Bwrdd Iechyd linellau atebolrwydd a phortffolios gweithredol clir, ond mae angen i gyfarfodydd busnes clinigol ganolbwyntio mwy ar ansawdd a diogelwch.** Mae portffolios gweithredol clir a strwythur sefydliadol clir ar waith sy'n amlinellu'r rolau a'r cyfrifoldebau. Er nad oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod i'w strwythur gweithredol cyffredinol ers ein hadolygiad diwethaf, mae sawl newid wedi bod i'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae trefniadau dros dro ar waith gyda'r Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl Sylfaenol a Chymunedol yn symud i rôl y Prif Swyddog Gweithredol, a phenodwyd Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl Sylfaenol a Chymunedol newydd. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion wedi ymddeol yn ddiweddar, ac mae trefniadau dros dro ar waith hyd nes y bydd cyfarwyddwr newydd yn cael ei benodi yn 2019. Cafodd y Cyfarwyddwr Cyllid ei benodi yn gynharach eleni ar ôl bod yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd o'r blaen.

34 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal Cyfarfodydd Busnes Clinigol (CBMs) sy'n ceisio gwella perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol a gwella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau i gleifion a staff. Mae'r trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd hyn wedi gwella eleni, ond mae angen eu datblygu ymhellach i sicrhau bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn cael digon o

sylw. Rwy'n ymwybodol bod gwaith yn mynd rhagddo i barhau i fireinio'r ffordd mae CBMs yn gweithredu.

35 **Mae gan y Bwrdd Iechyd broses arbennig ar gyfer olrhain argymhellion Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol ac adrodd camau gweithredu a chynnydd i'r pwyllgor.** Fodd bynnag, rydym wedi nodi bod angen gwella'r gwaith o graffu ar argymhellion y nodwyd eu bod wedi'u cwblhau ac sy'n cael eu tynnu o'r adnodd olrhain gan fod yna risg bod yr argymhellion yn cael eu cau heb ddigon o graffu gan Aelod Annibynnol. Yn ogystal, gallai'r Bwrdd Iechyd archwilio'r cyfle i ddefnyddio'r adnodd olrhain i gydgysylltu camau gweithredu mewn ymateb i argymhellion o arolygiadau ac adolygiadau allanol eraill, megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, adroddiadau gan yr Ombwdsmon ac adroddiadau gan yr Uned Gyflenwi. Mae fy adolygiad Asesiad Strwythuredig eleni yn nodi amryw o feysydd lle mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd yn erbyn fy argymhellion blaenorol, ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd cyn i'r camau gweithredu hyn gael eu cwblhau yn llawn. Rwy'n trafod hyn ymhellach ym mharagraff 48.

## Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer cynllunio strategol a chymorth effeithiol ar gyfer cyfarwyddiaethau, ond mae'n anodd olrhain cynnydd heb gerrig milltir IMTP manwl

36 Archwiliodd fy ngwaith sut mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Asesais hefyd pa mor dda mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio'r gwaith o gyflawni ei amcanion a sut y mae'n monitro cynnydd o ran darparu'r cynlluniau. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

37 **Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth strategol glir ac mae'n datblygu ei strategaeth gwasanaethau clinigol tymor hir.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau â'i ddull blaenorol trwy ddatblygu cynllun ymgysylltu manwl ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol ar flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd. Cafodd y blaenoriaethau strategol a amlinellir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) eu llywio gan ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid allweddol, boed yn fewnol neu'n allanol. Roedd aelodau'r Bwrdd yn gadarnhaol yn ein harolwg ynghylch lefel eu hymgysylltu o ran pennu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau strategol.

38 **Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cynllunio strategol sy'n cael ei ategu gan waith modelu ac arweiniad yn ymwneud â'r galw a chapasiti.** Mae dull y Bwrdd Iechyd o ddatblygu ei IMTP yn dal i fod yn gyson ac yn adeiladu ar y cynllun blaenorol. Dyma'r bumed flwyddyn yn olynol y mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru am ei gynllun. Mae gweithdy cynllunio sefydliad cyfan ac arweiniad a thempledi manwl yn helpu pob cyfarwyddiaeth i gwblhau IMTPs ei chyfarwyddiaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei gapasiti dros dro i gefnogi trawsnewidiad nad yw'n rheolaidd, ac mae'n adolygu'r maes hwn yn gyson. Bydd angen i gylch nesaf yr IMTP adlewyrchu'r newidiadau i ffiniau ac integreiddiad ehangach gwasanaethau yn dilyn y trosglwyddiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu prosesau i

reoli'r trosglwyddiad a'r gwaith integreiddio gwasanaethau hwn, ac yn ymgysylltu â nhw i ddatblygu eu cynlluniau IMTP ar gyfer blwyddyn nesaf.

39 **Mae prosesau ar waith ar gyfer monitro darpariaeth IMTP ond, heb gerrig milltir manwl, mae'n anodd cael syniad cywir o gynnydd.** Fel rhan o'm hadolygiad asesiad strwythuredig, ystyriais y trefniadau monitro sydd ar waith ar gyfer yr IMTP. Un peth sy'n gadarnhaol yw bod adroddiadau IMTP wedi gwella eleni, gyda chysylltiadau cliriach â gweithgareddau a themâu strategol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, heb ddarlun clir o'r cerrig milltir yn yr IMTP cychwynnol, mae'n anodd i gynulleidfa allanol nodi cynnydd a gweld a yw'r blaenoriaethau ar y trywydd iawn.

## Mae trefniadau rheolaeth ariannol a rheoli asedau yn gadarn, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn perfformio'n gymharol dda yn erbyn sawl targed perfformiad allweddol. Fodd bynnag, mae angen parhau i weithredu i fynd i'r afael â heriau sylweddol yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys ffactorau sy'n sbarduno'r defnydd cymharol uchel o staff locwm ac asiantaeth

40 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei weithlu, ei gyllid ac asedau ffisegol eraill i gefnogi'r defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Ystyriais hefyd y trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u hamlinellu isod.

41 **Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o gyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol ac, ar y cyfan, mae ganddo reolaethau stiwardiaeth a rheolaeth ariannol cadarn ar waith.** Mae datganiadau ariannol 2017-18 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol. Mae'n ymddangos y bydd y ddyletswydd hon yn parhau i gael ei chyflawni yn 2018-19. Mewn perthynas â stiwardiaeth ariannol, mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith clir o rolau a chyfrifoldebau gyda gweithgareddau a phrosesau rheoli priodol ar waith. Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o fodloni ei ofynion adrodd statudol. Cyflwynwyd ei ddatganiadau ariannol drafft a therfynol i Lywodraeth Cymru yn unol ag amserlenni cytunedig. Yn yr un modd, cynhyrchwyd yr adroddiadau blynyddol drafft a therfynol yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ac yn unol ag amserlenni. Mae adroddiadau ariannol rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Chynllunio ac i'r Bwrdd llawn. Nododd fy ngwaith drefniadau caffael gweithredol da hefyd, ynghyd â'r potensial i reoli'r berthynas 'gytundebol' rhwng y Bwrdd Iechyd a'r darparwr caffael yn fwy rhagweithiol. Mae Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol (LCFS) ar waith i fynd i'r afael â thwyll yn y Bwrdd Iechyd, ond mae'r llwyth achosion ar gyfer gwasanaeth gwrth-dwyll lleol y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu'n raddol ac, ynghyd â'r newid i ffiniau sydd ar y gweill, mae'n golygu bod y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei ddarpariaeth LCFS gyda'r tebygolrwydd o gynyddu capasiti'r gwasanaeth gwrth-dwyll o flwyddyn ariannol 2019-20 ymlaen.

42 **Mae materion yn ymwneud â'r gweithlu yn parhau i herio'r Bwrdd Iechyd, ond mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â materion megis cyfraddau gwario a throsiant uwch na'r cyfartaledd.** Mae cynllun tymor canolig integredig (IMTP) y Bwrdd Iechyd yn amlygu'r ffaith mai'r her fwyaf i sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yw'r gwariant ar staff banc ac asiantaeth a staff locwm meddygol, deintyddol a nyrsio. Nod y Bwrdd Iechyd yw ceisio lleihau'r gwariant ar staff asiantaeth meddygol, deintyddol a nyrsio a bydwreigiaeth tua £5.1 miliwn erbyn y flwyddyn nesaf (2018-19) trwy fentrau megis 'ymddeol a dychwelyd' i nyrsys a chyflwyno e-restru a chynlluniau e-swyddi ar gyfer y gweithlu meddygol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd amryw o gamau i helpu i lenwi swyddi gwag, er enghraifft, recriwtio nyrsys o dramor a rhedeg ymgyrchoedd recriwtio megis yr ymgyrch '#joincwmtaf.wales'. Nod yr ymgyrch hon yw cyd-fynd â'r ymgyrch 'Hyfforddi Gweithio Byw' genedlaethol. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno rhaglenni ailgynllunio i foderneiddio ei weithlu a defnyddio ei staff yn wahanol. Adeg adrodd fy nghanfyddiadau Asesu Strwythuredig, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd gynllun hyfforddi a datblygu ac nid oedd wedi cynnal asesiad o anghenion hyfforddiant sydd angen bod yn faes i ganolbwyntio arno i'r dyfodol.

43 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar gyflawni ei dargedau mynediad allweddol, ac mae ganddo enghreifftiau o ffyrdd arloesol o weithio i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant.** Mae'r sefydliad yn gweithredu mewn amgylchedd heriol ac, er bod rhai o'i fertigau perfformiad wedi gwella, yr her nawr yw cynnal y gwelliant hwn. Mae ffocws cadarnhaol ar ofal iechyd darbodus a adlewyrchir yn yr IMTP ac mae rhai llwyddiannau wedi bod yn y maes, ond bydd angen adnoddau pellach i ymgorffori'r egwyddorion yn y cyfarwyddiaethau. Mae'r gwasanaethau Cadw'n Iach Gartref (SW@H) wedi derbyn cydnabyddiaeth a gwobr am eu dull arloesol, gan gyflawni arbedion ariannol a gwella adborth defnyddwyr gwasanaethau.

44 **Daethom i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn rheoli ei asedau yn well.** Gyda chymorth strategaeth ystadau a strategaeth rheoli asedau, mae gan y Bwrdd Iechyd ddull rheoli risg i flaenoriaethu'r dyraniad cyfalaf dewisol cyfyngedig ar draws ystadau, seilwaith TGCh, cyfarpar meddygol ac asedau perthnasol eraill. Mae cofrestr asedau sefydlog ar waith, ynghyd â system rheoli asedau. Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod cofrestr risg y gyfarwyddiaeth Ystadau yn gyfredol.

## Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn dangos gwaith cynllunio effeithiol, ond gellid gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i wella llif cleifion a chynlluniau rhyddhau a chreffir ar berfformiad yn rheolaidd; fodd bynnag, mae yna le i wella'r polisi a'r llwybrau rhyddhau

45 Nododd fy ngwaith fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i wella cynlluniau rhyddhau sy'n cael eu hategu gan bolisïau a mentrau gwella. Amlinellodd y cynllun tymor canolig integredig (IMTP) a'r cynllun gofal heb ei drefnu fentrau allweddol ar gyfer gwella llif cleifion, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu oedi wrth drosglwyddo gofal mewn cydweithrediad â chydweithwyr mewn awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae yna le i gryfhau agweddau ar y polisi cynllunio rhyddhau, a gallai'r camau yn y llwybr rhyddhau gael eu mynegi'n well.

46 Mae adnoddau pwrpasol ar gael i gefnogi cynlluniau rhyddhau, ac mae staff ward yn ffyddiog ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i gefnogi rhyddhau amserol. Mae tîm cysylltu rhyddhau ar gael i gefnogi achosion cymhleth, ac mae staff wardiau yn ffyddiog ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud gan eu bod wedi derbyn hyfforddiant diweddar gan y tîm cysylltu rhyddhau.

47 Mae pob math o wybodaeth am gynlluniau rhyddhau a llif cleifion yn cael ei chyflwyno'n rheolaidd i'r Bwrdd ac mae aelodau'r Bwrdd yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth. Ar y cyfan, mae perfformiad yn ymwneud â chynlluniau rhyddhau a llif cleifion yn gwella'n raddol, ond mae mwy o waith i'w wneud i leihau oedi wrth drosglwyddo gofal a hyd unrhyw aros yn adrannau damweiniau ac achosion brys y Bwrdd Iechyd.

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun cadarn ar gyfer gofal sylfaenol ac mae'n gwneud cynnydd rhesymol tuag at gyflwyno elfennau allweddol o'r weledigaeth genedlaethol. Mae trefniadau goruchwylio yn gryf ac mae perfformiad yn erbyn rhai dangosyddion yn well na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae yna le i godi proffil gofal sylfaenol, symud mwy o adnoddau tuag at ofal sylfaenol a mynd i'r afael â heriau'r gweithlu.

48 Deuthum i'r casgliad fod gan y Bwrdd Iechyd gynllun gofal sylfaenol cryf sy'n cyfateb i flaenoriaethau cenedlaethol ac, er bod clystyrau yn nyddiau cynnar eu datblygiad, maent yn cael cymorth i ddatblygu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd rhesymol o ran darparu ei gynllun gofal sylfaenol ac ardaloedd, ac mae rhai agweddau ar berfformiad yn well na chyfartaledd Cymru, er bod amryw o heriau anodd yn bodoli o hyd. Gall y Bwrdd Iechyd bwyntio at rai enghreifftiau penodol o adnoddau yn symud i ofal sylfaenol, ond mae yna rwystrau i newid ar raddfa fawr ac mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud hi'n anodd i gyfrifo'n gywir y buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol. Yn ogystal, cydnabyddir bod rhai o heriau'r gweithlu yn bygwth cynaliadwyedd rhai arferion cyffredinol, ond mae'r

Bwrdd Iechyd wedi dechrau modelu'r gweithlu ac mae yn nyddiau cynnar profi atebion. Mae trefniadau arwain a monitro cryf ar waith ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella data gofal sylfaenol, ond mae yna le i godi proffil gofal sylfaenol ymhellach yn y Bwrdd.

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael ag argymhellion o'm gwaith blaenorol, ond mae angen mwy o ffocws i leihau oedi mewn perthynas ag apwyntiadau dilynol trwy wella prosesau gweithredol a moderneiddio gwasanaethau

49 Mae fy ngwaith wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion o'm gwaith archwilio blaenorol. O'r 23 o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a gwmpesir yn yr adnodd olrhain archwiliadau, rydym wedi gwneud 174 o argymhellion; yn ôl y sôn, mae 162 o'r argymhellion hynny wedi'u rhoi ar waith, er ei bod hi'n bwysig nodi bod rhai yn gofyn am weithredu parhaus. Mae 12 o argymhellion yn aros, gyda phump yn hwyr o gymharu â'u dyddiad cwblhau gwreiddiol ac yn ymwneud yn bennaf â chleifion allanol nad yw apwyntiadau dilynol wedi eu trefnu ar eu cyfer a chynlluniau rhyddhau.

50 Fel rhan o'n Hasesiad Strwythuredig 2018, rydym wedi adolygu cynnydd yn erbyn argymhellion 2017 sydd wedi'u rhoi ar waith. O'r saith argymhelliad a wnaed, mae un wedi'i roi ar waith ac mae'r gweddill ar y gweill, gyda rhai â dyddiad targed i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

### Mae fy nghanfyddiadau mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Integredig yn dangos rhai heriau

51 Rwyf wedi cwblhau'r gwaith maes ar gyfer fy adolygiad traws-sector o'r Gronfa Gofal Integredig. Rwy'n bwriadu paratoi adroddiad cryno cenedlaethol yn gynnar yn 2019 yn amlinellu fy nghanfyddiadau Cymru gyfan. Mae fy nhîm archwilio eisoes wedi cyflwyno canfyddiadau lleol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Dyma'r negeseuon allweddol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Cwm Taf:

- Mae'r Gronfa Gofal Integredig (y gronfa) wedi cael effaith gadarnhaol o ran dwyn ynghyd sefydliadau o bob cwr o'r rhanbarth, ond bydd angen i'r BPRh ystyried a oes ganddo ddigon o dai a chynrychiolaeth ariannol a bydd rhaid iddo ystyried y newidiadau sydd angen eu gwneud i'r trefniadau partneriaeth yn dilyn trosglwyddiad Pen-y-bont ar Ogwr.
- Oherwydd natur flynyddol y gronfa, mae'r rhanbarth yn cydnabod nad yw bob amser wedi defnyddio'r gronfa yn strategol i ddatblygu gwasanaethau yn seiliedig ar angen, gyda lle i gryfhau agweddau rheoli prosiect ar gyfer y prosiectau a gefnogir gan y gronfa.
- Mae penderfyniadau yn ymwneud â'r defnydd o'r gronfa yn cael eu dirprwyo i is-grwpiau'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol. Mae gan y BPRh a'i Grŵp Arwain Trawsnewid berthynas gadarnhaol iawn ac maent yn ymddiried yn ei gilydd. Mae hyn yn cryfhau eu gallu i fod yn ffyddiog yn y penderfyniadau a

wneir trwy gyfrifoldeb dirprwyedig. Yn ogystal, mae aelodau'r BPRh yn cyfathrebu trafodaethau yn gyson i'w sefydliadau eu hunain.

- Mae yna gytundeb cyffredinol bod y gronfa'n cefnogi'r prosiectau iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau ond, fel byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill ledled Cymru, ychydig iawn o'r prosiectau sydd wedi'u prif ffrydio i wasanaethau craidd. Mae rhanbarth Cwm Taf yn ceisio dangos canlyniadau yn gliriach, ond mae hyn yn cyflwyno her barhaus.

## Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau

52 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yn ymarfer paru data dwyflynyddol sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau trwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a all fod yn dwyllodrus a gwallus. Mae'n adnodd hynod effeithiol o ran canfod ac atal twyll a gordaliadau ac er mwyn helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

53 Derbyniodd y Bwrdd Iechyd y canlyniadau o ymarfer paru data 2016 ym mis Ionawr 2017. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 311 o ganlyniadau paru a argymhellir. Yn ein Hadroddiad Archwilio Blynyddol 2016-17, adroddwyd mai dim ond naw o ganlyniadau paru data roedd y Bwrdd Iechyd wedi'u hadolygu erbyn 20 Tachwedd 2017 ac, o ganlyniad, ei fod wedi methu â gwneud defnydd effeithiol o'r NFI fel rhan o'i drefniadau i atal a chanfod twyll.

54 Ar 12 Tachwedd 2018, roedd rhaglen we yr NFI yn cofnodi bod y Bwrdd Iechyd wedi adolygu 216 o ganlyniadau paru data. Er ein bod yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd, mae'n ymddangos bod angen adolygu rhai canlyniadau paru risg uchel o hyd, gan gynnwys: paru rhwng data cyflogres, taliadau credydwyr a data Tŷ'r Cwmnïau a pharu rhwng cyfrifon banc staff a chyflenwyr.

55 Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd cyrff a oedd yn cymryd rhan ddata ar gyfer yr ymarfer paru data nesaf. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn ar gael yn gynnar yn 2019 ac mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad amserol o ganlyniadau paru a argymhellir sy'n deillio o'r ymarfer hwn. Lle mae canlyniadau paru data wedi'u hadolygu, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod rhaglen we yr NFI wedi'i ddiweddaru i gofnodi'n glir sut y cafodd y canlyniadau paru hyn eu hadolygu a'r canlyniadau.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae’r tabl canlynol yn rhestru’r adroddiadau a gyflwynwyd i’r Bwrdd Iechyd yn 2018.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Gynlluniau Rhyddhau | Chwefror 2018 |
| Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | Tachwedd 2018 |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Ionawr 2019 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Mawrth 2018 |

### Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo

Hefyd, mae nifer o archwiliadau o berfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl isod, gyda'r dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Adroddiad dilynol ar godio clinigol | Mawrth 2019 |
| Adolygiad o Feddygon Locwm | Mawrth 2019 |
| Adolygiad trawsbynciol ar y Gronfa Gofal Integredig | Mawrth 2019 |
| Adroddiad dilynol ar Wasanaethau Orthopedig | Hydref 2019 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2018 ffi archwilio arfaethedig o £407,993 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol sylweddol

### Arddangosyn 4: risgiau archwilio sylweddol

Nododd fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2018 y risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2018. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi’r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso’r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Gwaith wedi’i gwblhau a dim materion yn codi. |
| Mae risg y gallai’r Bwrdd Iechyd fethu bodloni ei ddyletswydd ariannol i fantoli’r gyllideb yn erbyn ei derfynau adnoddau refeniw a chyfalaf cyfun dros gyfnod o dair blynedd. Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i ragweld y caiff y gyllideb ei mantoli ar 31 Mawrth 2018. Ynghyd â’r gwargedau bach a gyflawnwyd yn 2015-16 a 2016-17, mae hyn yn dangos y bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswydd ariannol. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni’r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn gosod adroddiad o sylwedd ar y datganiadau ariannol yn amlygu’r methiant. Mae’r pwysau ariannol sydd ar y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn cynyddu’r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn unochrog mewn ymdrech i gyflawni’r ddyletswydd ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio ar brofi rhannau o’r datganiadau ariannol a allai fod yn unochrog. Byddwn hefyd yn adolygu, gyda rheolwyr, berfformiad y Bwrdd Iechyd ac effaith yr holl ganfyddiadau archwilio yn erbyn y terfynau adnoddau refeniw a chyfalaf ar gyfer y cyfnod tair blynedd 2015-16 i 2017-18. | Gwaith wedi’i gwblhau a dim materion yn codi.<br>Ni nododd fy ngwaith archwilio ar amcangyfrifon a meysydd goddrychol eraill megis darpariaethau unrhyw addasiadau sylweddol i ganlyniad y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn.<br>Daeth fy staff i'r casgliad, wedi ystyried gwallau dibwys, i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer terfynau adnoddau dros y cyfnod tair blynedd 2015-16 i 2017-18. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r amserlen ar gyfer llunio ac ardystio'r cyfrifon blynyddol yn dal i fod yn heriol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau trefniadau priodol ar gyfer paratoi'r cyfrifon a darparu papurau gwaith i'w harchwilio yn amserol. | Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i weithio'n agos gyda rheolwyr i wella papurau gwaith ategol a symleiddio prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon. | Gwaith wedi'i gwblhau a dim materion yn codi.<br>Nid oes gennym unrhyw faterion sylweddol i'w codi o ran ansawdd neu amseroldeb papurau gwaith a ddarparwyd i'w harchwilio. |
| Bu amryw o newidiadau ar lefel y bwrdd yn ystod y flwyddyn, yn cwmpasu Aelodau Annibynnol a'r Tîm Gweithredol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a datgeliadau'r Trafodion Partïon Perthnasol yn briodol mewn ymateb i hynny. | Bydd fy nhîm archwilio yn cysylltu â rheolwyr i sicrhau bod y datgeliadau hyn yn gywir ac yn adolygu'r meysydd hyn yn fanwl yn ystod yr archwiliad. | Gwaith wedi'i gwblhau.<br>Nododd fy nhîm archwilio amryw o gywiriadau gofynnol yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a datgeliadau'r Trafodion Partïon Perthnasol.<br>Gwnaed y cywiriadau hyn gan reolwyr. |
| Mae'r Prisiwr Dosbarth wedi ailbrisio tir ac adeiladau'r Bwrdd Iechyd eleni. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd (ynghyd â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru) wedi adolygu'r broses o gyfrif am ei gronfeydd ailbrisio wrth gefn yn y Fantolen, gydag asedau bellach yn cael eu dadansoddi fel 'adeiladau' yn hytrach na 'safleoedd' mwy o faint. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd adlewyrchu'r datblygiadau hyn yn gywir yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi ailbrisiadau tir ac adeiladau yn fanwl i sicrhau bod gwybodaeth gan y Prisiwr Dosbarth yn cael ei hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; ac<br>• adolygu'n fanwl unrhyw addasiadau i'r gronfa ailbrisio wrth gefn sy'n codi eleni. | Gwaith wedi'i gwblhau a dim materion yn codi. |
| Mae'r tariff HRG4+ newydd ar gyfer gwasanaethau gofal arbenigol yn Lloegr wedi cynyddu cost y gwasanaethau hyn yn 2017-18. Mae WHSSC wrthi'n dadlau â darparwyr gofal yn Lloegr ynghylch ai nhw (a Byrddau Iechyd Cymru yn y pen draw) fydd yn gorfod talu'r costau uwch. Os na fydd y sefyllfa hon yn cael ei datrys, gallai effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i fodloni terfyn ei adnoddau refeniw. | Bydd fy nhîm archwilio yn cysylltu â rheolwyr WHSSC a'r Bwrdd Iechyd i bennu sut y gallai'r mater hwn effeithio ar gofnodion cyfrifyddu yn y datganiadau ariannol. | Gwaith wedi'i gwblhau a dim materion yn codi.<br>Roeddem yn fodlon bod cofnodion cyfrifyddu ar gyfer y mater hwn yng nghofnodion 2017-18 gan WHSSC/EASC a'r Bwrdd Iechyd yn gywir. Gan nad oedd y ddadl hon wedi'i datrys erbyn ardystio cyfrifon 2017-18, bydd angen i ni adolygu'r mater hwn eto wrth gynllunio ar gyfer archwiliad 2018-19. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn llwyddo i roi cyfrif cywir am hawliadau cyfreithiol parhaus rhwng darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn. Yn arbennig, mae yna drafodaethau parhaus ynghylch dyfarniad yn y Goruchaf Lys ym mis Awst 2017 ar gostau Gofal Nyrsio a Ariennir, a allai arwain at atebolrwydd sylweddol i’r Bwrdd Iechyd yn 2017-18. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu’r sefyllfa a’r cyngor cyfreithiol diweddaraf ac yn trafod y driniaeth gyfrifyddu a’r modd y cyflwynir y mater hwn yn y datganiadau ariannol. | Gwaith wedi’i gwblhau a dim materion yn codi. |
| Yn 2016-17, cyflwynwyd sylwadau gennym i’r rheolwyr ar sawl maes yn ystod ein gwaith archwilio, gan gynnwys:<br>• dosbarthiad cyfredol/anghyfredol o ddarpariaethau esgeulustod clinigol a dyledwyr Cronfa Risg Cymru;<br>• datgeliadau’r adroddiad ar gydnabyddiaeth; a<br>• cymeradwyaeth weinidogol o gontractau dros £1 miliwn. | Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr argymhellion a wnaed yn ein Memorandwm Cyfrifon Ariannol a’r addasiadau sy’n deillio o’r archwiliad o’r datganiadau ariannol yn 2016-17 fel rhan o’n gwaith archwilio yn 2017-18. | Gwaith wedi’i gwblhau.<br>Gwnaeth fy nhîm nodi cywiriadau perthnasol mewn dosbarthiad sy’n ofynnol mewn perthynas â darpariaethau a dyledwyr perthnasol Cronfa Risg Cymru.<br>Cafodd y cywiriadau hyn eu prosesu gan reolwyr ac ni wnaethant effeithio ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru